Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cyllideb yr Heddlu ar gyfer 2025/2026



Cyhoeddwyd Mawrth 2025

# Mynd i'r afael â heriau ariannol a chynyddu Swyddogion Heddlu mewn Timau Plismona Lleol

Eich Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Dafydd Llywelyn sy'n gyfrifol am osod y gyllideb ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn yn cynnwys gosod y praesept, sef yr elfen o'r dreth gyngor sy'n mynd tuag at eich gwasanaeth heddlu lleol.

Ar ôl proses graffu helaeth dros sawl mis, cefnogodd Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn unfrydol gynnig praesept y Comisiynydd ar gyfer 2025/26, a fydd yn cynyddu eiddo band D cyfartalog gan 8.6%. Mae hyn yn cyfateb i £28.65 y flwyddyn, sef tua £2.39 y mis.

Mae cydbwysedd denau rhwng mynd i'r afael â galwadau gweithredol i sicrhau diogelwch y cyhoedd, tra'n sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr a rheolaeth ariannol gadarn. Wrth osod y praesept, mae'r CHTh yn ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys chwyddiant a phwysau costau, galwadau gwasanaeth, gofynion buddsoddi yn y dyfodol ar gyfer seilwaith hanfodol, cynlluniau effeithlonrwydd a chynhyrchiant yn ogystal ag ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn. Mae'r CHTh hefyd yn ceisio adborth gan drigolion ardal Dyfed-Powys gan gydnabod y baich ychwanegol y bydd unrhyw gynnydd yn y praesept yn ei roi ar drethdalwyr.

Bydd y cyllid praesept yn dod â gwelliannau sylweddol i wasanaethau heddlu, yn fwyaf nodedig trwy gynyddu swyddi swyddogion heddlu mewn Timau Plismona Lleol ar draws yr Heddlu. Bydd y cynnydd hwn yn cryfhau galluoedd rheng flaen, gyda swyddogion profiadol yn cael eu rhyddhau o ymchwiliadau desg a rolau cymorth eraill i gefnogi plismona cymunedol ac ymateb.

Bydd cynnydd mewn praesept ynghyd â'r Grant Gwarant Plismona Bro yn cynyddu adnoddau mewn Timau Plismona Lleol gan 50 Swyddog Heddlu cyfwerth ag amser llawn.

Bydd buddsoddiadau hefyd yn cael eu gwneud mewn offer gweithredol hanfodol, technoleg, uwchraddio a staff ychwanegol i gefnogi swyddogion rheng flaen a gwella effeithlonrwydd. Bydd y gwelliannau hyn yn helpu i leihau beichiau gweinyddol, gan alluogi swyddogion i ganolbwyntio mwy ar eu dyletswyddau, gan wella ansawdd ac amseroldeb y broses o ymdrin ag achosion.

Bydd yr Heddlu hefyd yn cryfhau'r gefnogaeth i alwyr bregus ac yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiad, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ymatebol i anghenion y gymuned ac yn darparu safon uchel o wasanaeth a diogelwch.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i sicrhau gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i'r cyhoedd. Maent yn hyderus bod y cynnydd hwn yn fuddsoddiad angenrheidiol, gan ddiogelu diogelwch a lles ein cymunedau.







## Faint fyddwch chi'n ei dalu ar gyfer plismona yn 2025-26 drwy eich Treth Gyngor?

| Band Treth | 2024/25 | 2025/26 | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| A | £221.35 | £240.45 | £19.10 |
| B | £258.25 | £280.53 | £22.28 |
| C | £294.14 | £320.60 | £26.46 |
| **D** | **£332.03** | **£360.68** | **£28.65** |
| E | £405.81 | £440.83 | £35.02 |
| F | £479.60 | £520.98 | £41.38 |
| G | £553.38 | £601.13 | £47.75 |
| H | £664.06 | £721.36 | £57.30 |
| I | £ 774.74 | £841.59 | £66.85 |



## Ble mae'r arian yn mynd ac yn dod:

| Cyllideb Refeniw | 2024/25 diwygiwyd £m | 2025/26 £m |
|---|---|---|
| Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu | 1.529 | 1.908 |
| Gwasanaethau a Gomisiynir | 1.333 | 1.657 |
| Trosgwlyddiad o Gronfeydd Wrth Gefn - CHTh | -0.025 | -0.275 |
| **Costau Net SCHTh** | **2.837** | **3.289** |
| Cyflogau a Phensiynau Swyddogion a Staff yr Heddlu | 134.214 | 145.728 |
| Treuliau Rhedeg Eraill | 23.952 | 25.633 |
| Gwasanaethau Asiantaethau a Gwasanaethau ar Gontract | 5.410 | 5.291 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 3.873 | 4.377 |
| **Cyfanswm Gwariant Gros yr Heddlu** | **167.449** | **181.029** |
| Incwm | -10.227 | -11.032 |
| Grantiau Eraill | -15.027 | -18.046 |
| Cyfraniad net o Gronfeydd Wrth Gefn | -1.129 | -1.938 |
| **Gofyniad Cyllideb Net** | **143.902** | **153.303** |
| Grant yr Heddlu (Swyddfa Gartref) | -56.125 | -58.839 |
| Ardrethi Annomestig a Ailddosbarthwyd (Llywodraeth Cymru) | -0.192 | -0.191 |
| Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cymru) | -8.220 | -7.908 |
| Praesept Treth Gyngor | -79.364 | -86.365 |
| **Cyfanswm yr Arian** | **-143.901** | **-153.303** |
| **Asesiad o Wariant Safonol** | **34.936** | **35.425** |
| **Cyllideb Gwariant Cyfalaf** | **16.588** | **24.176** |
| **Amcangyfrif o gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol** | **-17.507** | **-10.710** |

# Diwrnod arferol i Heddlu Dyfed-Powys:

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gysylltu â'r Heddlu, gan gynnwys ar-lein. Ymdrinnir â chyswllt ar-lein yn yr un modd â galwadau 101 nad ydynt yn rhai brys. Dyma rai o enghreifftiau o'r gofynion sy'n cyfrannu at ddiwrnod arferol i Heddlu Dyfed-Powys.*

**162** Galwadau 999

**464** Galwadau 101

**250** Cysylltiadau Digidol

- **101** Troseddau a gofnodwyd
- **9** Digwyddiad Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a adroddwyd
- **5** Digwyddiadau o dwyll
- **4** Troseddau Rhywiol
- **17** Troseddau cam-drin domestig
- **3** Troseddau cyffuriau (gyda chanlyniad trosedd cadarnhaol)
- **11** Pobl ar goll
- **37** Digwyddiadau Iechyd Meddwl
- **17** Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd

*Yn seiliedig ar ddata blwyddyn ariannol 2023-24

## Bydd cylliden 25-26 yn cefnogi:

| | |
|---|---|
| Swyddogion Heddlu | 1299 |
| PCSOs | 132 |
| Staff yr Heddlu | 964 |

*(Cyfwerth Amser Llawn)*



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner


01267 226440 opcc@dyfed-powys.police.uk

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin SA31 2PF

www.dyfedpowys-pcc.org.uk @DPOPCC